**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD MERCHER, 5 MEHEFIN, 2013**

**WEDNESDAY, 5 JUNE, 2013**

Lleoliad / Location:

**YSTAFELL GYFARFOD/MEETING ROOM,**
**FRONDEG,**
**PWLLHELI**
**am /at 11.00am.**

**(Aelodau'r Is-bwyllgor yn unig i gyfarfod ger Gorsaf Rheilffordd Pwllheli am 10.30am)**
**(Sub-committee members only to meet near Pwllheli Railway Station at 10.30am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**GWYN PARRY WILLIAMS**

**(01286) 679665**

gwynparrywilliams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 28/05/13

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth/Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Peter Read (Cadeirydd/Chairman)

Huw Edwards

Ann Williams

Llywarch Bowen Jones  (wrth gefn/reserve)

**Aelodau Lleol / Local Members**

Cynghorwyr/Councillors

Gwynfor Edwards (Cais/Application 4)

Michael Sol Owen (Cais/Application 5)

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. 11.00am CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323, STRYD FAWR, BANGOR**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **glas**)

**5. 2.00pm CAIS I ADOLYGU TRWYDDED EIDDO – REHAB, SGWÂR YR ORSAF, PWLLHELI**

Ystyried y cais uchod (copi ynghlwm – papur **aur**)

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG (ARFON)** |
| **DYDDIAD:** | **5 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM WYRIAD O DRWYDDED EIDDO – STAR KEBAB, 323 STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am wyriad o drwydded eiddo Star Kebab, 323 Stryd Fawr, Bangor LL57 1YA gan ddeilydd y drwydded, Mehmet Kabadayi.
Gwneir y cais er mwyn ceisio am ymestyniad o awr yn ychwanegol , 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer y gweithgaredd trwyddedig o ddarparu lluniaeth hwyr y nos.

| Gweithgaredd trwyddedig | Trwydded gyfredol | Trwydded arfaethedig |
|---|---|---|
| Sul – Iau | 23:00 – 02:00 | 23:00 – 03:00 |
| Gwener - Sadwrn | 23:00 – 02:30 | 23:00 – 03:30 |

## CEFNDIR

Ar y 12fed o Ionawr 2012, fe ganiataodd yr Is - Bwyllgor hwn adolygiad o drwydded yr eiddo gan Heddlu Gogledd Cymru ar sail tystiolaeth o drosedd ac anrhefn, ac ymddygiad gwrth gymdeithasol gan gwsmeriaid yr eiddo.
Fel canlyniad i'r adolygiad, fe gwtogwyd oriau gweithgareddau trwyddedig yr eiddo i'r oriau presennol, ynghyd ac ychwanegu amodau ychwanegol mewn perthynas â darpariaeth Teledu Cylch Cyfyng a Goruchwylwyr Drysau.

Ar y 29ain Dachwedd, fe gafwyd gwrandawiad o'r Is - Bwyllgor hwn lle ystyriwyd Rhybuddion o Ddigwyddiadau Dros Dro gan ddeilydd y drwydded i ganiatáu ymestyniad o oriau trwyddedig o un awr ar 15 achlysur yn ystod mis Rhagfyr 2012. Fe gyflwynodd yr Heddlu dystiolaeth o drosedd ac anrhefn ; ac adrodd ar achosion troseddol a diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yr eiddo. Fe ganiatawyd y Rhybuddion Digwyddiad Dros Dro gan y pwyllgor.

## YMGYNGHORIAD

Ymgynghorwyd ar y cais ac fe gafwyd sylwadau a gwrthwynebiad i'r cais gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae gwrthwynebiad yr Heddlu yn cael ei wneud ar sail yr oll o'r amcanion trwyddedu –

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Rhwystro niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Cyflwynwyd y gwrthwynebiad oherwydd parhad problemau yn ymwneud a'r eiddo, a thystiolaeth nad yw deilydd y drwydded yn cydymffurfio a rhai o amodau'r drwydded. Gweler manylion llawn sylwadau a sail gwrthwynebiad yr Heddlu ynghlwm a'r adroddiad hwn.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **5 MEHEFIN 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS AM ADOLYGIAD O DRWYDDED EIDDO, REHAB, SGWÂR YR ORSAF, PWLLHELI** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am adolygiad o drwydded eiddo Rehab, Sgwâr yr Orsaf , Pwllheli, Gwynedd LL53 5HG oddi wrth yr Arolygydd Mark Armstrong, Heddlu Gogledd Cymru. Gwneir y cais i adolygu'r drwydded yn dilyn methiant yr eiddo mewn 3 achlysur o brawf brynu alcohol yn ystod ymgyrchoedd prawf brynu a gynhaliwyd gan Heddlu Gogledd Cymru rhwng Mai a Hydref 2012.
Fe dderbyniodd yr Heddlu sawl cwyn o sŵn cerddoriaeth yn hwyr yn y nos gan aelodau'r cyhoedd hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gwneir y cais oherwydd tystiolaeth fod yr amcanion trwyddedu isod yn cael eu tanseilio -

- Diogelu plant rhag niwed
- Atal niwsans cyhoeddus

## DIOGELU PLANT RHAG NIWED

Nodir fod genethod 15 ac 16 oed wedi llwyddo i brynu alcohol yn yr eiddo ar dri achlysur yn olynol rhwng Mai a Hydref 2012 fel rhan o ymgyrch prawf bryniant yr Heddlu. Ni ofynnwyd am oedran yr unigolion, nac ychwaith am brawf oedran drwy gerdyn adnabod ar y tri achlysur.
Yn unol â pholisi gorfodaeth yr Heddlu, ar ôl y methiant prawf brynu cyntaf, fe gafwyd cyfarfod 'cam 2' gyda deilydd y drwydded pryd y cytunwyd ar gamau gweithredu.
Saith wythnos yn ddiweddarach, fe fu i'r eiddo fethu prawf bryniant arall , a gan fod hyn yr ail achlysur oddi fewn i 3 mis fe gytunodd deilydd y drwydded i dderbyn Rhybudd Cau gan yr Heddlu, ac fel canlyniad caewyd yr eiddo am 72 awr ar Awst 16.
Ar Hydref y 6ed 2012, fe werthwyd alcohol eto i berson o dan oed mewn ymgyrch prawf bryniant.
Ar y 12fed o Chwefror 2013 fe ymddangosodd deilydd y drwydded yn llys yr Ynadon yng Nghaernarfon , ac fe gafwyd ef yn euog o werthu alcohol yn gyson i rai o dan 18. Derbyniodd ryddhad amodol am 12 mis ac fe'i gorchmynnwyd i dalu £85 mewn costau a £15 gordal dioddefwr.

## ATAL NIWSANS CYHOEDDUS

Fe nodir yn y dystiolaeth a gyflwynir gan yr Heddlu fod 6 galwad wedi eu derbyn gan aelodau'r cyhoedd rhwng Mai 2012 a Mawrth 2013 oherwydd sŵn cerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos.
Fe ganiateir cerddoriaeth ar yr eiddo tan 01:00 yn ddyddiol gydag amser cau o 02:00 yn ddyddiol.
Roedd pob un cwyn sŵn a dderbyniodd yr Heddlu yn cyfeirio at sŵn cerddoriaeth ar ôl yr oriau a ganiateir ar y drwydded - rhwng 01:08 ac un cwyn mor hwyr a 05:11 y bore.

## ARGYMHELLIAD YR HEDDLU

Mae'r Heddlu yn gofyn i'r Is Bwyllgor ystyried defnyddio ei bwerau i atal trwydded yr eiddo am gyfnod o ddim mwy na 3 mis oherwydd methiant deilydd y drwydded dro ar ol tro i roi mesurau mewn lle i ddiogelu plant rhag niwed oherwydd achlysuron cyson o werthu alcohol i unigolion o dan 18. Awgrymir y byddai atal y drwydded am 6 wythnos yn gyfnod digonol.

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Aelod lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Cymuned/Tref | Dim sylwadau |
| Preswylwyr cyfagos | Llythyr – sylwadau yn cefnogi'r adolygiad |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Dim sylwadau |
| Swyddog Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd | Llythyr ac adroddiad – yn cefnogi'r adolygiad. |

Gweler yn amgaeedig fanylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd.

## SYLWADAU PRESWYLYDD CYFAGOS

Cyfeirir at broblemau parhaus sydd wedi amharu ar y cwynydd yn gyson ers 2009. Cwynir am sŵn cerddoriaeth uchel, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nodir fod cwsmeriaid yr eiddo yn cael eu caniatáu i yfed ar y Stryd er bod y lleoliad yn Lleoliad Cyhoeddus Dynodedig lle na ganiateir yfed alcohol. Nodir fod y cwynydd wedi dod ai gwyn i sylw adran Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor.

## SYLWADAU SWYDDOG GWARCHOD Y CYHOEDD

Cyflwynir tystiolaeth o broblemau sŵn parhaus yn deillio o gerddoriaeth uchel yn hwyr yn y nos sydd yn cefnogi sylwadau'r Heddlu.
Ymhelaethir ar achlysuron o broblemau sŵn a nodwyd rhwng Gorffennaf 2012 i fyny hyd at y presennol. Nodir fod swyddog gwarchod y cyhoedd, swyddog trwyddedu'r Cyngor a'r Heddlu wedi cynnal trafodaethau yn ystod y cyfnod hwn gyda deilydd y drwydded i geisio datrysiad i'r broblem sŵn. Casglwyd tystiolaeth drwy beiriant monitro sŵn, ac fe gynghorwyd y preswylydd cyfagos i gadw cofnod o'r achlysuron pryd oedd y sŵn yn uchel yn hwyr yn y nos. Er bod sawl trafodaeth a chytundeb wedi bod gyda deilydd y drwydded i ostwng y sŵn i lefel a gytunwyd i fod yn dderbyniol, nodir fod y problemau sŵn yn parhau hyd y presennol.
Cefnogir cais yr Heddlu am atal y drwydded am gyfnod.

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r dystiolaeth a gyflwynir gan yr Heddlu, preswylydd cyfagos a Gwarchod y Cyhoedd ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.